# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**3/3/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Euros Roberts, Beryl Griffiths, Dewi Jones, Heledd Jones, Arwel Jones, Huw Roberts, Lis Puw, Rhodri Jones a Llinos Edwards.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cynghorydd Sir) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3303** **Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts ac fe gyfeiriodd at farwolaeth y diweddar Iorwerth Evans, Arddol, a fu'n aelod o'r Cyngor Cymuned am nifer o flynyddoedd.

**3304** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Alwyn Jones.

**3305** **Datganiadau o fuddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cyng Alwyn Roberts a Beryl Griffiths yn eitem 3310 (ceisiadau am gymorth ariannol mudiadau lleol).

**3306** **Cofnodion Cyfarfod Chwefror 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3307** **Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Nodwyd fod Grŵp Cynefin angen datrys problemau draeniad cyn symud ymlaen gyda chais cynllunio ar gyfer y datblygiad.
ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Atgoffwyd yr aelodau fod sesiwn hyfforddiant i'r ardalwyr ar y defnydd o'r offer yn cael ei chynnal ar Fawrth 4ydd.
iii. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Adroddwyd nad oes gan Gyngor Gwynedd wrthwynebiad i'r Cyngor Cymuned i gofrestru'r safle er mwyn creu maes parcio bychan. Cytunwyd mai'r camau nesaf fydd clirio'r safle, symud ymlaen gyda chofrestru'r tir, ac i greu cynlluniau ar gyfer y safle.

**3308** **Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd fod problemau ar riw Dwrnudon wedi eu datrys, a gwaith atgyweirio ar ffordd Erw Fron ar y gweill. Adroddodd fod Tim Tacluso Ardal Ni Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud gwaith clirio ym Maes y Pandy, a bod angen datrysiad i faterion Lloches Bws y Lôn. Soniodd fod angen cyllid o Lywodraeth Cymru i uwchraddio Llwybr Tegid, a bod gwli ger mynedfa Ysgol O M Edwards wedi ei chlirio. Cadarnhaodd ei fod yn parhau mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd, Adra a Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â pholisi gosod fflatiau Maes y Pandy, a'i fod yn parhau i roi pwysau ar yr awdurdodau i gael datrysiad i'r sefyllfa.

**3309** **Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu:

a) Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn - Adroddwyd fod rhai o bolion enwau taith Cwm Cynllwyd wedi eu gosod, a bod trefniadau yn eu lle i osod polion teithiau Peniel a Phenantlliw. Nodwyd mai'r camau nesaf fydd paratoi cynnwys a mapiau i gyd-fynd âr teithiau ar wefan y cyngor.

b) Prosiect Enwau Lleoedd: Nodwyd fod cyfarfod pellach yn cael ei drefnu at Fawrth 25ain.

c) Cynllun Ardal Llanuwchllyn: Fe adolygwyd y cynllun, sy'n rhoi sail i benderfyniadau'r cyngor ar faterion cynllunio etc, ac fe gytunwyd i anfon y cynllun diwygiedig i Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

ch) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri: Nodwyd fod y Parc Cenedlaethol yn gwneud galwad agored am safleoedd i'w argymell ar gyfer datblygiadau yn y pentref. Cytunwyd fod rôl i'r Cyngor Cymuned i hyrwyddo'r cyfleon yma yn lleol.

2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar Chwefror 16eg i adolygu ffioedd claddu'r fynwent ac i wneud trefniadau ar gyfer gwelliannau yn y fynwent. Cytunwyd i drefnu sesiwn o glirio yn y Fynwent Newydd cyn y Pasg. Adroddwyd fod tendr cynnal mynwentydd y pentref wedi ei gyhoeddi, a bod gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â hawliau'r cyngor i symud cyrbiau beddi yn y fynwent er mwyn hwyluso torri gwair etc.

3. Pwyllgor Asedau: Nodwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar Fawrth 3ydd ac wedi gwneud trefniadau i roi sylw i lochesi bws yr ardal, meinciau, hysbysfyrddau a giât y Fynwent Newydd.

**3310 Materion Ariannol:**

Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Anfoneb cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb nwyddau glanhau y toiledau.
- Taliad blynyddol Swyddog y Fynwent.
- Anfoneb cynnal llwybrau cyhoeddus 2025.
- Anfoneb hysbyseb cytundeb torri gwair y fynwent.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Chwefror yn £43.99.

Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth ariannol gan y cyngor, ac fe gytunwyd ar y cyfraniadau canlynol:

Neuadd Bentref Llanuwchllyn: £1,000

CFFI Glannau Tegid: £200 (swm uwch oherwydd costau Rali CFFI 2026).

£125 yr un i Llen y Llannau, Eisteddfod Llungwyn, Urdd Meirionnydd, Aelwyd Penllyn, CFFI Meirionnydd, Sioe Llanuwchllyn, Cantref, Teulu Gwalia, Gŵyl Llan, Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn, Theatr Derek Williams, Y Cyfnod, Criw Eirys, Adran Bentref a Chlwb Llan, Gwersi Offerynnol Ysgol OME, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Chylch Meithrin Llanuwchllyn.

**3311 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter wedi cytundebau gyda Carol Stitson fel tenant newydd i'r Eagles, a bod y dafarn yn cau am rai dyddiau ar gyfer addurno, gan ail agor nos Iau Mawrth 5ed. Adroddwyd fod gwasanaeth y siop a phapurau newydd wedi eu trosglwyddo i Plas Moduron, ond y bydd papurau newydd ar gael yn yr Eagles ar ddydd Sul.

3312 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod gwaith o uwchraddio Canolfan Bro Tegid wedi ei gwblhau, a bod y Gwasanaeth Trafnidiaeth Cymunedol wedi cychwyn, gyda galw mawr am y gwasanaeth. Nodwyd fod y cwmni yn parhau i chwilio am wirfoddolwyr i yrru'r car ac i gefnogi'r defnyddwyr.

3313 **Materion cynllunio: Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:**

1. **NP5/71/L277B:** Cais ôl-weithredol i osod bwyler ac amnewid cladin (ffliw ddiwygiedig), 2 Pont Afonfechan, Llanuwchllyn: Nid oedd sylwadau pellach ar y cais.

3314 **Gohebiaeth:**

i) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned: Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa, sydd yn benodol i gynghorau cymuned a thref, ar gyfer gwneud gwelliannau i ardaloedd.
ii) Rhaglen Gwella Llefydd Lleol Un Llais Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth am sesiwn Gwella Llefydd Lleol ar Fawrth 19eg, ac fe gytunodd y Cyng Lis Puw i fynychu'r sesiwn ar ran y cyngor.
iii) Menter Môn: Rhaglen Dathlu Gwlân. Derbyniwyd gwybodaeth am ddigwyddiad yng Ngwersyll Glan-llyn ar Fawrth 6ed.
iv) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Derbyniwyd llythyr yn gofyn am unrhyw newidiadau i gytundeb cynnal llwybrau cyhoeddus yr ardal. Cytunwyd i wneud cais i dorri gwrych Llwybr Cei.

3315 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd:

i) Fod uned wyliau newydd wedi ei lleoli yn yr ardal – cytunwyd i holi am ei statws cynllunio.
ii) Fod y casgliad llyfrau yng 'Nghwpwrdd y Cyngor' yn y Neuadd Bentref angen cartref newydd. Cytunwyd i roi'r wybodaeth yn Law yn Llaw.

3316 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 7/4/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.